# DEDDF TIR COMIN 2006 – ADRAN 15(1)(3)

## Rhybudd o gais i gofrestru tir fel Grîn Tref neu Bentref VG4

**I bob perchennog, lesddeiliad, tenant, neu feddiannydd honedig unrhyw ran o'r tir a ddisgrifir isod, ac i unrhyw un arall a fynno wybod**

Gwnaed cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cyngor"), Blwch Post 1, Conwy LL30 9GN dan Adran 15(1)(3) Deddf Tir Comin 2006 ac yn unol â Rheoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"). Mae'r cais yn gofyn am gynnwys ar y gofrestr griniau tref a phentref y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen isod yr honnir sydd yn gymwys i gael ei gofrestru fel grîn tref neu bentref oherwydd ei fod wedi'i ddefnyddio yn agored gan drigolion yn yr ardal leol at ddibenion hamdden (e.e. picnics, pêl-droed, rygbi, rownderi, golff a chriced) am gyfnod hirach nag ugain mlynedd.

Gellir archwilio'r cais, sy'n cynnwys cynllun o'r tir y bwriedir ei gofrestru, yn https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Local-Land-Charges/Common-Land-and-Village-Greens/Legal-Notices-for-Amendment-to-Common-Land-and-Village-Greens.aspx.

Os yw'r awdurdod cofrestru'n fodlon bod y tir a ddisgrifir isod yn gymwys i'w gofrestru fel grîn tref neu bentref, bydd yn cofrestru'r tir fel hynny.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cofrestru'r tir fel grîn tref neu bentref anfon datganiad o'r ffeithiau y seilir y gwrthwynebiad arno at:

*Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai*

*Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,*

*Blwch Post 1*

*CONWY*

*LL30 9GN*

ar 11 Mawrth 2022 neu ynghynt. Ni ellir trin unrhyw ddatganiad sydd i'w ystyried gan y Cyngor wrth wneud penderfyniad ar y cais yn gyfrinachol a bydd copi yn cael ei anfon at yr ymgeisydd er mwyn iddo / iddi wneud sylw arno ac efallai y caiff ei ddatgelu i bartïon eraill.

Dyddiedig 14 Ionawr 2022

Llofnod:

------------------------------------------

Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

ATODLEN y cyfeirir ati

Land known as Gwrych Castle woodlands & the land & access route from & including the ruins, Abergele

**Ffurflen 45**